WHAT CAN YOU DO?

SYNIADAU AR GYFER CODI ARIAN

Os ydych am godi arian i gynnal digwyddiad yn ystod mis Dathlu AG (Mawrth 2011), dyma rai syniadau i'ch helpu gyda'r hyn a all ymddangos yn gryn dipyn o dasg. Mae'n bosibl na fydd mor anodd ag y tybiwch.

Dechreuwch drwy rannu syniadau – pwy ydych chi'n ei adnabod? Meddyliwch am eich rhwydwaith presennol; mae'ch teulu, eich ffrindiau a'ch cydweithwyr yn fan cychwyn amlwg. Gwnewch restr o'r holl gysylltiadau posibl a allai'ch helpu chi, naill ai gyda syniadau i godi arian neu gyda chymorth ymarferol neu fasnachol.

Yna taflwch eich rhwyd ymhellach - rhieni, cysylltiadau yn y gymuned leol, cydweithwyr mewn ysgolion eraill, cymunedau ffydd, ymgynghorwyr, y sector gwirfoddol. Beth am bobl o'r gorffennol sy'n ymddangos yn eich rhestr o ffrindiau ar Facebook - oes rhai ohonynt yn gweithio i sefydliadau cefnog efallai? Oes yna fusnes neu grŵp cymuned lleol a allai helpu, naill ai drwy roi cyfraniad ariannol, neu drwy roi gwobrau ar gyfer cystadlaethau? A fyddai'n ddefnyddiol rhoi hysbyseb yn rhywle yn y gymuned a allai annog pobl i helpu, neu ysgrifennu llythyr i'r papur newydd lleol?

Y gyfrinach yw bod yn greadigol, defnyddio'ch dychymyg a bod yn ddewr. Nid yw'n costio dim i anfon e-bost, a hyd yn oed os na lwyddwch i gael arian, bydd eich ymdrechion wedi hyrwyddo mis Dathlu AG ac efallai y cewch gynnig lleoliad neu wobr ar gyfer cystadleuaeth.

Codi arian yn yr ysgol

Gwerthu cacennau, sioeau ffasiynau, disgyblion yn gwisgo'u dillad eu hunain i'r ysgol, gwerthu mygiau neu grysau–t arbennig, noson cwis, sioeau talent...

Mae llawer o awgrymiadau ar y rhyngrwyd os ydych yn chwilio am ffyrdd gwreiddiol o godi arian.

Rhowch y geiriau 'syniadau ar gyfer codi arian' yn Gwgl a chewch lu o awgrymiadau – rhai'n well nag eraill. Bydd gennych syniad da eisoes o'r hyn sy'n gweithio yn eich ysgol neu'ch cymuned chi.

Os yw amser yn brin, beth am sefydlu pwyllgor disgyblion i wneud y gwaith trefnu a'r gwaith o dynnu sylw at y digwyddiad i godi arian? Yn ddiweddarach, os byddant wedi gweithio'n effeithiol fel tîm, gallent fod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad ei hun.

Gellid trefnu gweithgareddau'n ymwneud ag AG i godi arian gan dargedu grwpiau penodol o blant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau diwylliannol. Mae'r thema 'bwyd, ffydd a gwyliau' yn gweithio'n dda gyda phlant o bob oed (a gyda rhieni, gyda lwc), ac mae sioeau ffasiwn a thalent yn boblogaidd ymhlith pobl ifanc.

Mae'n bosibl bod gan eich ysgol bolisi ar godi arian ac mae'n bwysig eich bod yn dilyn y drefn arferol. Trafodwch â'ch cydweithwyr a gofalwch fod y pennaeth yn ymwybodol o'ch ymdrechion i Ddathlu AG ac i godi proffil y pwnc yn yr ysgol. Byddai'n werth sôn wrth y Llywodraethwyr os ydych yn cynllunio digwyddiadau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm, yn enwedig os ydych yn gweithio mewn ysgol uwchradd ac oes gennych Lywodraethwr sy'n gyfrifol am AG. Gallai'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon hefyd gynorthwyo â digwyddiadau i godi arian.

Cyfraniadau electronig

Gallech greu tudalen ar Just Giving neu Virgin Money ar gyfer eich digwyddiad (unwaith eto, byddai'n rhaid i chi ofalu bod hyn yn cadw at bolisi'r ysgol). Dyma'r ffordd hawsaf o gasglu arian ar-lein gan noddwyr a chyfranwyr. Gallwch greu tudalen sy'n hyrwyddo'r digwyddiad ac sy'n egluro pam yn union rydych yn codi arian. Gall unrhyw un greu tudalen. Bydd y cwmnïau hyn yn cyfrifo'ch ad-daliad treth Cymorth Rhodd, a gall cyfranwyr weld faint o arian rydych yn ei gasglu a gadael neges

bersonol i chi. Cofiwch fod tua 5% yn cael ei didynnu fel arfer i dalu costau gweinyddol y safle.

www.justgiving.com

www.virginmoneygiving.com

O ble arall gewch chi gyfraniad?

Ymddiriedolaethau ac elusennau lleol

Mae'n gyfnod anodd i gyrff gwirfoddol sy'n gweld eu hincwm yn gostwng oherwydd y llog isel ar fuddsoddiadau a gostyngiad mewn cyfraniadau a thanysgrifiadau. Os oes gennych gysylltiadau eisoes ag elusen leol neu ymddiriedolaeth addysgol, mae'n bosibl y byddai'n werth i chi droi atynt am gymorth. Gallai elusennau mawr sydd â chylch gwaith addysgol fod yn barod i weithio gyda chi, a rhannu cysylltiadau ac arbenigedd efallai.

Os ydych am gadw'ch cynlluniau'n lleol iawn, cysylltwch â llyfrgell y dref neu'r swyddfa wybodaeth. Mae'n bosibl bod ganddynt wybodaeth am gyrff a sefydlwyd i hyrwyddo addysg neu gydlyniant cymdeithasol, neu'n gwybod am elusennau lleol sydd â chylch gorchwyl penodol iawn. Holwch i weld a yw rhai ohonynt yn rhoi sylw penodol i addysg grefyddol ac, os ydynt, mae'n bosibl y gallwch wneud cais am grant neu rodd.

Cysylltwch â'ch CYSAG lleol

Efallai y byddai'n werth i chi gysylltu â'ch CYSAG lleol. Soniwch wrthych am eich cynlluniau, a gofynnwch a oes ganddynt gyllideb ar gyfer digwyddiadau arbennig, a gofynnwch iddynt gynnwys Dathlu AG ar eu hagenda yn eu cyfarfod nesaf. Edrychwch ar eu gwefan i gael rhagor o wybodaeth. Weithiau bydd cynrychiolwyr unigol CYSAG (e.e. cymunedau ffydd neu gymdeithasau proffesiynol athrawon) yn barod i gyfrannu rhodd, fel gwobr ar gyfer cystadleuaeth.

Busnesau Lleol

Cysylltwch â busnesau lleol a gofyn am gyfraniad ariannol at eich prosiect, i ariannu rhan ohono, neu'r cyfan, gan ddibynnu ar faint y busnes. Beth am gymorth ar ffurf nwyddau? Efallai y byddai busnes lleol yn fodlon rhoi gwobrau. Gallai cwmni bws gynnig trip am ddim i fan addoli neu ganolfan grefyddol. Pan fyddwch yn cysylltu â busnesau lleol, pwysleisiwch y manteision hirdymor a'u cyfraniad i'r gymuned leol. Ceisiwch gysylltu dros y ffôn i ddechrau, i'ch cyflwyno'ch hun ac i gael syniad o'r cymorth y gallant ei gynnig. Gallech wedyn anfon llythyr neu e-bost i gadarnhau'r hyn rydyn cyn gofyn amdano. Os dewiswch 'Dysgu oddi allan i'r ystafell ddosbarth' fel thema ar gyfer Dathlu AG , efallai y gallech ofyn am gyfraniad neu gymorth ariannol i deithio i fan addoli.

Ymddiriedolaethau ac elusennau cenedlaethol

Mae arian ar gael ar gyfer gweithgareddau AG addas gan rai Ymddiriedolaethau Colegau Eglwysig - mae'n bosibl y gwyddoch amdanynt eisoes e.e. The Culham Educational Foundation a'r All Saints Educational Trust.

Cewch hyd iddynt yn y Cyfeirlyfr AG
www.theredirectory.org.uk/trusts

Os penderfynwch wneud cais, bydd angen i chi wneud hynny ar fyrder gan mia dim ond unwaith y tymor y byddant yn cyfarfod fel arfer.

Cymunedau Ffydd Lleol

Cysylltwch â'ch eglwys leol a gofynnwch am gefnogaeth ei haelodau yn ystod mis *Dathlu AG*, naill ai ar ffurf arian neu nwyddau. Mae'n bosibl y gallai grwpiau ffydd eraill eich cynorthwyo hefyd. A allent roi lle i chi arddangos gwaith myfyrwyr ym mis Mawrth 2011, neu gynnig ystafell ar gyfer dadl neu berfformiad? Gofynnwch iddynt eich helpu i hysbysebu'ch digwyddiadau a, drwy hynny, ennyn diddordeb ymhlith eu cymunedau ehangach.

Cyfraniadau ar ffurf nwyddau

Mae'n bosibl y bydd grwpiau ac unigolion yn fodlon cyfrannu nwyddau, yn enwedig os nad oes ganddynt lawer o arian. Beth am ddefnyddio'u hadeilad, gan gynnig eu helpu nhw gyda'r sgiliau neu'r adnoddau sydd gennych chi (e.e. cynnig sesiwn hyfforddi ar ffyrdd effeithiol o weithio gydag ysgolion ym maes AG)?

Mae lluniaeth yn bwysig felly efallai y gallai rhywun eich helpu chi yn y cyswllt hwn. Mae'n werth gofyn!

Gwneud cais am grant

Os penderfynwch wneud cais am grant gan sefydliad elusennol mwy, bydd angen treulio rhywfaint o amser yn delio â hyn. Mae'r rheini sy'n llwyddo i gael grant yn gwneud eu gwaith cartref ac yn ymchwilio i hanes ymgeiswyr llwyddiannus yn y gorffennol. Gofalwch eich bod yn nodi faint o bobl ifanc fydd yn rhan o'r gweithgaredd, ac yn dweud sut y caiff yr arian ei wario.

I ysbrydoli cyfranwyr, beth am roi enghreifftiau o ddigwyddiadau llwyddiannus blaenorol? Yn olaf, pwysleisiwch effaith debygol y digwyddiadau ar ddysgu a chydlyniant cymdeithasol.

Cysylltiadau trawsgwricwlaidd gydag AG

Byddwch yn greadigol a meddyliwch am yr hyn y gallech wneud cais amdano. Allech chi ymuno ag adran arall yn eich ysgol a chyflwyno cais cryfach a allai'ch helpu chi a'r adran arall i godi arian? Er enghraifft, ymuno â'r adran ddaearyddiaeth i wneud cais am arian gan gorff amgylcheddol. Mae Wythnos Newid Hinsawdd hefyd ym mis Mawrth 2011 a byddai'n gyfle i ddisgyblion AG ganolbwyntio ar faterion gwyrdd a ffydd yng nghyd-destun y newid yn yr hinsawdd. Gallwch holi cyrff daearyddol ac amgylcheddol a fyddai'n bosibl cael cymorth ariannol.

Gwnewch eich gwaith cartref cyn cyflwyno'ch cais. Gofalwch eich bod yn egluro'n union sut y byddwch yn gwario'r arian a phwysleisiwch yr effaith debygol a gaiff eich cynlluniau.

Cydweithwyr mewn ysgolion eraill

Rhan o etifeddiaeth Dathlu AG fydd y cysylltiadau y bydd yn eu creu rhwng athrawon, myfyrwyr a gweithwyr AG proffesiynol , yn lleol ac yn genedlaethol. Os nad ydych yn rhan o rwydwaith AG lleol, beth am ddechrau rhwydwaith o'r fath? Cysylltwch ag ysgol gerllaw i weld a fedrwch weithio ar y cyd i hyrwyddo digwyddiadau lleol. Gall eich CYSAG neu'ch grŵp NATRE lleol eich helpu chi yn y cyswllt hwn (ewch i www.natre.org.uk).

Oes gennych chi syniad gwell?

Os ydych chi wedi cael hyd i ffordd well o godi arian neu o gael gwobrau ar gyfer Dathlu AG, rhowch wybod i ni! Gallwn dynnu sylw at eich profiadau o godi arian yn ein cylchlythyr misol sydd i'w weld ar y wefan.